# Cofrestrfa Tir EF

## Datganiad o wirionedd i gefnogi cais i gofrestru tir ar sail gweithredoedd a gollwyd neu a ddinistriwyd

# ST3

**Dylai unrhyw rannau o'r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau**.

Os bydd angen mwy o le arnoch na'r hyn sydd ar gael mewn panel, ac mae'ch meddalwedd yn caniatáu hynny, gallwch ehangu unrhyw banel yn y ffurflen. Fel arall defnyddiwch ddalen barhau CS a'i hatodi i'r ffurflen hon.

Os yw datganiad ar y cyd yn cael ei wneud gan ddau unigolyn neu fwy, gellir gwneud newidiadau ôl-ddilynol i'r testun yn y paneli (er enghraifft, gellir newid 'Rwyf' i 'Rydym').

Ni all Cofrestrfa Tir EF roi cyngor cyfreithiol ond mae canllawiau ar geisiadau i Gofrestrfa Tir EF (gan gynnwys ein cyfarwyddiadau ymarfer i drawsgludwyr) ar gael o www.gov.uk/land-registry.

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

| | | |
|---|---|---|
| Rhowch enw llawn.<br><br>Rhowch gyfeiriad llawn. | 1 | Rwyf i:<br><br>o:<br><br>yn gwneud y datganiad hwn i gefnogi cais i'r Gofrestrfa Tir ar gyfer cofrestriad cyntaf ystad, y mae'r gweithredoedd teitl wedi cael eu colli neu eu dinistrio. |
| Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig.<br><br>Mae hyn ar gyfer achosion lle mae'r perchennog cyfreithiol yn gwmni neu'n fusnes, rhywun sydd wedi marw, neu fel arall yn rhywun na all wneud y datganiad yn bersonol. Rhowch enw a chyfeiriad y perchennog cyfreithiol.<br><br>Nodwch ac amgaewch unrhyw ddogfennaeth berthnasol (er enghraifft, copi swyddfa grant profiant).<br><br>Gweler y nodyn uchod. | 2 | Statws y sawl sy'n gwneud y datganiad hwn<br><br>Rwyf yn<br>☐ berchennog cyfreithiol yr ystad (heblaw fel cynrychiolydd personol)<br>☐ gwneud y datganiad hwn ar ran:<br><br>sef y perchennog cyfreithiol presennol neu flaenorol ond ni all wneud y datganiad hwn am y rhesymau canlynol:<br><br>☐ arall: |
| Rhowch y cyfeiriad post gan gynnwys cod post. Os nad oes cyfeiriad post rhowch ddisgrifiad, fel 'tir yn ffinio â 2 Acacia Avenue'. Oni bai bod y tir wedi ei ddangos gyda nodweddion wedi'u diffinio'n eglur ar fap yr Arolwg Ordnans, rhaid i chi ddarparu cynllun yn dangos stent y tir sydd wedi ei gynnwys yn y gweithredoedd teitl a gollwyd neu a ddinistriwyd. Rhowch 'X' yn y blwch, os yw'n briodol, a nodwch sut y cyfeirir ato, er enghraifft 'gydag amlinelliad coch'. | 3 | Disgrifiad o'r tir:<br><br>☐ Mae'r tir wedi ei ddynodi'n eglur ar y cynllun atodedig ac wedi ei ddangos: |
| Rhowch 'X' yn y blwch(blychau) priodol.<br><br>Nodwch y cyfnod.<br><br>Rhowch fanylion. | 4 | Math o gais<br>☐ Cofrestriad cyntaf ystad rydd-ddaliol mewn tir<br>☐ Cofrestriad cyntaf ystad brydlesol mewn tir, a chyfnod y brydles yw'r blynyddoedd o:<br>☐ Arall: |

| | | |
|---|---|---|
| Rhowch fanylion am ddyddiad ac amgylchiadau caffael yr ystad gan y perchennog cyfreithiol presennol neu (os yw'r perchennog cyfreithiol presennol yn gynrychiolydd personol) gan y perchennog cyfreithiol blaenorol ymadawedig. | 5 | Cyfnod perchnogaeth yr ystad: |
| Rhowch fanylion am yr unigolyn neu'r corff oedd yn dal y gweithredoedd a ble'r oedd y gweithredoedd yn cael eu dal adeg eu colli neu eu dinistrio. | 6 | Gan bwy oedd y gweithredoedd a ble'r oeddent yn cael eu dal pan gawsant eu colli neu eu dinistrio: |
| Esboniwch o dan ba amgylchiadau roedd y gweithredoedd yn cael eu dal (er enghraifft a oeddent yn cael eu dal i'w cadw'n ddiogel neu fel gwarant am arian dyledus neu o dan hawlrwym). | 7 | Pam oedd y gweithredoedd yng ngafael yr unigolyn: |
| Rhowch fanylion am y dyddiad, y lle a'r amgylchiadau pan gollwyd neu y dinistriwyd y gweithredoedd. | 8 | Pryd, ble a sut y collwyd neu y dinistriwyd y gweithredoedd: |
| Rhowch fanylion am chwiliadau, ymholiadau ac unrhyw ymdrechion eraill a wnaed i adennill y gweithredoedd. Atodwch gopïau o unrhyw ohebiaeth sydd ar gael neu ddogfennau perthnasol eraill sy'n ymwneud â hyn. | 9 | Pa gamau a gymerwyd i adennill y gweithredoedd: |
| Rhowch 'X' mewn un blwch yn unig, a chwblhewch y datganiad os yw'n gymwys.<br><br>Rhowch fanylion a chadarnhewch a yw'r llyffethair yn parhau ac, os nad yw, rhowch dystiolaeth i sefydlu ei bod wedi ei had-dalu neu ei rhyddhau. | 10 | Morgeisi, arwystlon neu hawlrwymau ac ati<br><br>Cadarnhaf pan gollwyd neu pan ddinistriwyd y gweithredoedd<br><br>☐ nad oedd y perchennog cyfreithiol wedi creu, ac nad oedd fel arall unrhyw forgais, arwystl neu hawlrwym yn parhau ar y tir ac nad oedd y gweithredodd wedi eu hadneuo gydag unrhyw unigolyn, cwmni neu gorff fel gwarant am arian<br><br>☐ fod y perchennog cyfreithiol wedi creu, neu fel arall bod y morgais, arwystl neu hawlrwym canlynol yn parhau ar y tir neu fod y gweithredodd wedi eu hadneuo gyda'r unigolyn, cwmni neu gorff canlynol fel gwarant am arian: |

| | |
|---|---|
| Os yw'r ystad yn ystad mewn tir, dylid cynnwys manylion y defnydd ac union feddiant o'r tir a/neu unrhyw renti a phroffidiau a dderbyniwyd. Os yw'n rhent-dâl, nodwch y taliadau a wnaed, y talwr, y talai, symiau a dyddiadau.<br><br>Cyflwynwch unrhyw dystiolaeth sydd ar gael, megis llyfrau rhent neu dderbynebion. | 11a Tystiolaeth o feddiant |
| Rhowch fanylion am yr hawliau a arferwyd gan y perchennog cyfreithiol. Os yw'r perchennog cyfreithiol presennol yn gynrychiolydd personol, rhowch fanylion am unrhyw hawliau a arferwyd gan y perchennog cyfreithiol blaenorol ymadawedig.<br><br>Rhowch fanylion am unrhyw hawliau neu hawliadau trydydd parti a allai fodoli. | 11b Hawliau a arferwyd gan y perchennog cofrestredig a hawliau neu hawliadau trydydd parti. |
| Cwblhewch y panel hwn os yw copïau o'r gweithredoedd a/neu ddogfennau eraill ar gael i gefnogi'r cais ac atodwch y copïau i'r datganiad hwn – fel arall ewch ymlaen i banel 13.<br><br>Rhowch fanylion. | 12 Ailffurfio teitl<br><br>Cadarnhaf<br><br>☐ fod y copïau o'r gweithredoedd atodedig a/neu ddogfennau eraill wedi cael eu derbyn gan:<br><br>☐ fod y teitl wedi cael ei ymchwilio yn y ffordd arferol adeg caffael yr ystad gan y perchennog cyfreithiol presennol neu (os yw'r perchennog cyfreithiol presennol yn gynrychiolydd personol) gan y perchennog cyfreithiol blaenorol ymadawedig<br><br>☐ fod y trawsgludiad, trosglwyddiad neu aseiniad i'r perchennog cyfreithiol presennol neu (os yw'r perchennog cyfreithiol presennol yn gynrychiolydd personol) i'r perchennog cyfreithiol blaenorol ymadawedig, ac unrhyw forgais, wedi cael eu cyflawni'n briodol ac, os yw'n berthnasol, eu stampio'n ddigonol |
| | 13 Hawl i wneud cais am gofrestriad<br><br>Cadarnhaf fod hawl gan y ceisydd i wneud cais am gofrestriad trwy fod yr ystad gyfreithiol wedi ei breinio ynddynt (neu fod ganddynt hawl i fynnu cael yr ystad gyfreithiol wedi ei breinio ynddynt) |
| Gweler cyfarwyddyd ymarfer 2 sydd ar gael ar wefan GOV.UK am fanylion pellach ynghylch gofynion Cofrestrfa Tir EF. | 14 Tystiolaeth hunaniaeth<br><br>Mae'r dystiolaeth hunaniaeth briodol (os oes ei hangen) wedi ei hatodi |
| Rhowch unrhyw fanylion perthnasol eraill, (os oes). | 15 Manylion perthnasol eraill |
| Os nad yw'r sawl sy'n gwneud y datganiad yn gallu ei lofnodi, bydd angen newid y geiriad i gydymffurfio â rheol 215A(5) a (6) o Reolau Cofrestru Tir 2003. Yn ogystal, ac mewn achosion lle na all y sawl sy'n gwneud y datganiad ddarllen, bydd angen darparu tystysgrif briodol: gweler rheol 215A(4) a (5). | 16 Credaf fod y ffeithiau a'r materion a gynhwysir yn y datganiad hwn yn wir<br><br>Llofnod (y sawl sy'n gwneud y datganiad hwn): ______________________________<br><br>Printiwch yr enw llawn:<br><br>Dyddiad: |

RHYBUDD
Os yw'r cais yn mynd rhagddo, gall rhybudd o'r cais (gyda chopi o'r datganiad o wirionedd hwn) gael ei anfon gan y cofrestrydd at berchennog y tir neu unrhyw un y tybiwyd mai ef/hi yw'r perchennog a/neu unrhyw un arall y cred y cofrestrydd ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i roi rhybudd iddo/iddi.

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae'r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy'n ymwneud â chais a gyflwynir i'r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio a'u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i'r rhan honno o'r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 05/18